Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dowlais
Stryd Fawr
Dowlais
Merthyr Tudful
CF48 3HB

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**o dan gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Crëwyd Ysgol Gynradd Dowlais trwy uno Ysgol Iau Gwernllwyn ac Ysgol Babanod Dowlais ym Medi 2009; mae wedi ei lleoli ar ddau safle pellter byr oddi wrth ei gilydd. Mae'n gwasanaethu cymuned Dowlais a gaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'r ardal yn un sydd ag amddifadedd economaidd sylweddol ac mae'r ysgol yn ddegfed yn y rhestr o ysgolion yn ei theulu o ysgolion sydd yn cael eu herio fwyaf. Mae 20% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim; ffigur sydd yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn is nag un yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ac mae cyfartaledd amser llawn o 229 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae canolfan adnodd dysgu'r awdurdod lleol ar gyfer cyfnod allweddol 2 hefyd ar safle'r ysgol; mae hwn yn bennaf ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau iaith ac anawsterau dysgu cymedrol.

Mae disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol yn cynrychioli'r ystod lawn o allu. Ar hyn o bryd, mae 29% o'r disgyblion wedi eu dynodi fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA); nid oes unrhyw ddisgybl yn dal datganiad o AAA. Daw bron yr holl ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Mae pum disgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae ychydig iawn o ddisgyblion o dras ethnig leiafrifol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

Mae'r ysgol wedi cyflawni llawer o wobrau. Mae wedi ei hachredu fel Ysgol Iach ac wedi cyflawni statws Eco-Sgolion. Mae wedi diwallu'r safonau i ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2004. Yn dilyn uno'r ddwy ysgol, penodwyd staff newydd, bu newidiadau i rolau a chyfrifoldebau athrawon ynghyd â gwelliannau i'r adeiladau.

Yn 2010-2011, roedd y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Dowlais yn £3339, sydd yn cymharu ag uchafswm o £6431 ac isafswm o £3035 ar gyfer ysgolion cynradd Merthyr Tudful. Gan yr ysgol mae'r 12$^{fed}$ gyllideb uchaf fesul disgybl o'r 25 o ysgolion cynradd yr awdurdod.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da;
- mae'r addysgu yn dda ar y cyfan;
- mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu da ar gyfer y disgyblion;
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn datblygu medrau cymdeithasol da;
- mae'r monitro a'r tracio o gynnydd disgyblion yn dda;
- mae'r ysgol yn gymuned glos a gofalgar sydd yn dathlu ymdrechion a chyflawniadau'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach sydd yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'i hanghenion;
- mae'r ysgol wedi rheoli newid yn dda ac mae ei chynllunio da wedi cyflawni gwelliannau yn y ddarpariaeth;
- mae blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau pellach wedi eu ffocysu'n eglur ar godi safonau yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr o ddata;
- mae'r staff wedi ymateb yn dda i'w rolau a'u cyfrifoldebau newydd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- mae'r ethos cynhwysol o ofal a chefnogaeth yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y disgyblion yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwy datblygu ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 wella safonau cyflawniad disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy galluog, yn fwy cyson ar draws y cyfnodau allweddol;*

A2 cryfhau medrau llafar ac ysgrifennu'r disgyblion ymhellach ar draws yr ysgol;*

A3 gwella medrau iaith y disgyblion yn y Gymraeg;*

A4 datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn fwy cyson ar draws yr ysgol;*

A5 gwreiddio cyfrifoldebau arweinyddol yr uwch rheolwyr newydd a datblygu rôl y corff llywodraethu*.

**Mae agweddau o'r uchod wedi'u cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol.*

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu bydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r plant yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sydd yn sylweddol is na'r rhai a ddisgwylir yn arferol ar gyfer plant o'u hoed. Dengys data'r ysgol fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Gwnânt gynnydd da iawn yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau disgyblion saith blwydd oed fel y'u mesurir gan asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi bod yn uwch na rhai'r awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a rhai'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn 2010, bu cwymp ym mherfformiad y disgyblion, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Cafodd y canran uchel o ddisgyblion ag AAA yn y garfan (39%) effaith andwyol ar y deilliannau. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn genedlaethol, yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim, roedd y canlyniadau at ei gilydd yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau cyffredinol disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ac eithrio disgyblion yn y ganolfan, wedi bod yn uwch na rhai'r awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a'r teulu o ysgolion mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Maent hefyd yn cymharu'n ffafriol

mewn mathemateg. Bu cwymp yn y deilliannau yn 2010, eto'n adlewyrchu'r canran o ddisgyblion ag AAA (29%) yn y garfan. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn genedlaethol, yn seiliedig ar hawl i brydau ysgol am ddim, roedd deilliannau 2010 yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf. Yn y tair blynedd flaenorol, roedd canlyniadau yn rhoi'r ysgol yn yr 50% uchaf. Mae archwiliad o waith cyfredol y disgyblion yn dangos eu bod yn gwneud cynnydd da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 ac mae'r mwyafrif yn cyflawni'n dda yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg.

Pan gynhwysir disgyblion o'r ganolfan yn y ffigurau, mae canlyniadau disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol mewn dwy flynedd ac yn is yn y gweddill. Yn gyffredinol, mae deilliannau yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a rhai'r teulu o ysgolion. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn genedlaethol, yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau at ei gilydd yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% isaf.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r canran o ddisgyblion sydd yn cyflawni'n uwch na'r lefel disgwyliedig (lefel 3) ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn anwastad. Mae'n gyson uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer yr awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a'r teulu o ysgolion mewn Saesneg ac, yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mewn gwyddoniaeth. Mae'n anwastad mewn mathemateg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni'n uwch na'r lefel disgwyliedig (lefel 5) yn gyffredinol yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer yr awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a'r teulu o ysgolion.

Nid oes unrhyw wahaniaethau cyson ym mherfformiad y bechgyn a'r merched er ceir amrywiaethau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau. Dengys llawer o'r disgyblion a dargedir i dderbyn cymorth darllen gynnydd da ac yn aml gynnydd da iawn. Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u gallu a'u cyfnod o ddatblygiad. Oherwydd ffactorau penodol o ran y grwpiau a aseswyd bu cwymp yn y deilliannau yn 2010, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 1, o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn datblygu'n dda gyda disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn benodol yn arddangos ystod o strategaethau meddwl a datrys problemau mewn pynciau megis mathemateg a hanes.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn astud yn y dosbarth. Mae'r mwyafrif yn barod i siarad gyda disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn ymateb mewn dull mwy ymestynnol wrth drafod eu gwaith. Mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cynnig ymatebion cyfyng yn ystod trafodaethau. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n gymwys mewn perthynas â'u hoed a'u gallu ond dengys gwaith lleiafrif o ddisgyblion afael ansicr o sillafu a chystrawen ynghyd ag ystod gyfyng o eirfa. Ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn gwella gydag enghreifftiau o storïau a barddoniaeth wedi eu hysgrifennu'n dda. Yn gyffredinol, mae medrau darllen disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol iawn mewn amrediad o gyd-destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da mewn technoleg

gwybodaeth a chyfathrebu ac yn defnyddio'u medrau'n dda mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Mae safonau mewn Cymraeg yn dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yn ddigonol yn y cyfnodau allweddol eraill.  Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn ymateb yn gywir i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml yn ystod gwersi, cyfnodau cofrestri ac addoli ar y cyd.  Er hynny, wrth iddynt symud trwy'r ysgol nid yw disgyblion yn gyffredinol yn ymestyn eu geirfa a'u patrymau brawddeg yn ddigonol i gynnal sgwrs syml neu adeiladu ar eu medrau darllen ag ysgrifennu yn ddigonol.  Mae gwybodaeth disgyblion o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru yn dda.

**Lles:  Da**

Teimla'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol a mynegant hyder yn y gofal a ddarperir gan y staff.  Dangosant barch, gofal a chonsyrn am ei gilydd ac maent yn perthnasu'n dda i'w hathrawon, staff ac ymwelwyr.  Mae gan bron yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i fod yn iach a diogel.  Maent yn adnabod pwysigrwydd ymarfer a bwyta diet iachus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymagweddau da tuag at ddysgu.  Maent yn gweithio'n gynhyrchiol gydag eraill ac yn ymdrechu'n dda i gwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu.

Mae safonau ymddygiad yn dda a dywed disgyblion mae ychydig neu dim bwlio a geir oherwydd gweithrediad mentrau cyfryngwyr cymheiriaid.  Mae ffigurau presenoldeb o 92.4% yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau priodol.  Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor ego yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau am fywyd ysgol ac yn cynrychioli safbwyntiau eu cymheiriaid yn dda.  Mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd trwy gyfranogi mewn amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol sydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o fywyd y tu allan i'r ysgol yn llwyddiannus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2:    Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu:  Da**

Darpara'r ysgol ystod eang o brofiadau dysgu da sydd yn diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol.  Mae cynllunio ysgol-gyfan i ddatblygu cwricwlwm yn seiliedig ar sgiliau yn datblygu'n dda yn gyffredinol.  Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus yn ddyddiol i gynnwys cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau.  Yn yr arfer orau, ar ben uchaf cyfnod allweddol 2, ceir darpariaeth dda ar gyfer ymestyn a gwella medrau ysgrifennu a rhifedd y disgyblion.  Ar draws yr ysgol, ceir pwyslais da ar ymateb i anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; mae hwn yn gryfder.

O fewn a thu hwnt i'r cwricwlwm, mae darpariaeth dda i ddatblygu addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Yn aml iawn, defnyddir y cyfleoedd hyn yn arloesol i alluogi disgyblion i gymhwyso'r medrau a ddysgwyd mewn meysydd pwnc eraill.

Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad yn yr iaith Gymraeg yn anghyson. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ddarpariaeth yn dda. Yn y dosbarthiadau eraill, mae gweithgareddau wedi eu cynllunio ond mae diffyg cysondeb yn yr arfer i feithrin medrau'r disgyblion yn ddigonol. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, ceir defnydd da o Gymraeg achlysurol ar draws y dydd. Yn gyffredinol, mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, ac am hanes a diwylliant Cymru.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n dda ar y cyfan. Yn y mwyafrif o wersi a arsylwyd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi yn llawn ac yn weithredol yn y broses dysgu. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol da maent yn defnyddio'n effeithiol i arwain y dysgu. Ym Mlwyddyn 6, mae nodweddion rhagorol yn y modd mae'r addysgu yn datblygu tasgau ymchwiliol a datrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Ar draws yr ysgol, mae oedolion wedi eu lleoli'n dda i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Defnyddia'r rhan fwyaf o athrawon ystod o ddulliau a gweithgareddau'n dda i ddarparu her a chefnogaeth briodol. Ar adegau, nid yw tasgau'n cydweddu â lefelau gallu disgyblion yn ddigonol, a cheir gorddibyniaeth ar daflenni gwaith.

Mae systemau effeithiol ar gyfer gosod targedau a thracio cynnydd disgyblion. Mae deilliannau tracio yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gynnwys gwersi a'r dulliau addysgu. Yn gyffredinol, mae'r marcio'n bwrpasol ac yn berthnasol i'r gweithgaredd dysgu; mae hwn yn gryfder ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2. Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ond nid ydynt yn gyson yn eu ffocws ar anghenion dysgu i'r dyfodol.

Mae asesu ar gyfer dysgu ar gyfnod o ddatblygiad. Yn yr arfer orau, mae strategaethau wedi gwreiddio ac yn rhoi disgyblion wrth galon y broses dysgu. Mae hyn yn arbennig o amlwg ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol lle caiff disgyblion eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'n cynnig ystod eang o fentrau sydd yn hyrwyddo lles a byw yn iach yn effeithiol. Maent yn cynnwys disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned megis swyddog yr heddlu a'r nyrs ysgol. Maent hefyd yn cynnwys polisïau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad da. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn dynodi anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhwydwaith o weithgareddau cefnogi sydd yn cyfrannu at welliant mewn safonau cyflawniad. Caiff hyn ei adlewyrchu'n dda ym medrau darllen disgyblion ac yn y gwelliant ym medrau personol a chymdeithasol disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiadol. Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn cynnwys targedau eglur

ac yn adlewyrchu safbwyntiau disgyblion a rhieni. Caiff disgyblion yn y ganolfan eu cynnwys yn llwyddiannus yn y dosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer amrediad o weithgareddau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda nifer o asiantaethau i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd angen cefnogaeth arbenigol.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn amrediad da o wybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol trwy gylchlythyron, technoleg gwybodaeth, nosweithiau rhieni a pholisi drws agored effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae'r ethos cadarnhaol iawn yn yr ysgol yn darparu amgylchedd cadarn a threfnus lle rhoddir pwyslais penodol ar werthoedd megis gonestrwydd, chwarae teg a pharch.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hollgynhwysol lle caiff amrywiaeth ei gydnabod a'i ddathlu. Anogir y disgyblion i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain yn ogystal ag ar rhai pobl eraill.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn weithredol ac mae gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i holl feysydd o'r ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddysgwyr.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd mewn cyflwr da yn y ddau safle ac yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Mae adeiladau'r ysgol a'r ardaloedd tu allan wedi eu cynllunio, a'u cynnal a'u cadw i safon dda. Mae'r dosbarthiadau, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, wedi eu haddurno i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol a rhyngweithiol. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac wedi eu cydweddu'n dda i anghenion y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth dda o anghenion yr ysgol. Mae'n arwain trwy esiampl bersonol ac yn gosod y lefel ar gyfer y staff a'r disgyblion trwy ei ymroddiad a'i ddull proffesiynol. Mae'n cyfathrebu ei weledigaeth yn effeithiol ac ynghyd â'r uwch dîm rheoli newydd yn sefydlu cyfeiriad eglur ar gyfer yr ysgol. Defnyddir ystod o dystiolaeth, yn enwedig data, yn dda i ddynodi meysydd o gryfder a rhai ar gyfer eu datblygu. Mae systemau rheoli perfformiad mewn lle ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygiad proffesiynol unigol a gwelliant ysgol.

Mae'r corff llywodraethu yn gefnogol ac yn wybodus iawn. Diwellir gofynion statudol ac mae aelodau'n cyfranogi mewn penderfyniadau cyllidebol ac yn cael cyfleoedd i gyfrannu at hunan adolygu ysgol. Fodd bynnag, llai datblygedig yw eu rôl fonitro.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i fentrau cenedlaethol a lleol. Mae athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn cael eu sefydlu'n dda gyda'r plant yn manteisio oddi wrth

ardaloedd dysgu sydd wedi eu hailfodelu, a chwricwlwm arloesol. Cafodd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol ei ymgorffori i mewn i gynllunio ar gyfer gwelliant ac mae'r uwch dîm rheoli wedi cyflwyno mentrau priodol sydd yn gwella medrau ysgrifennu disgyblion, yn enwedig ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau a gweithdrefnau hunan arfarnu yn cynnig darlun cyffredinol cywir i'r pennaeth a'r staff uwch o'r hyn sydd angen er mwyn i'r ysgol ddatblygu ymhellach. Caiff yr holl rhanddeiliaid eu cynnwys ac mae systemau cadarn yn sicrhau bod ystod o dystiolaeth, gan gynnwys dadansoddiad manwl o ddata, yn cael ei ddefnyddio'n dda i fwyhau'r ddarpariaeth a gwella safonau. Caiff y cynllun gwella ysgol ei gysylltu'n briodol i ddeilliannau'r broses hunan arfarnu.

Mae arweinwyr pwnc, llawer yn newydd i'r cyfrifoldeb, yn cynhyrchu cynlluniau datblygu tair blynedd gyda'r deilliannau'n cael eu hadolygu'n flynyddol i fonitro cynnydd. Mae'r effaith cadarnhaol ar safonau a'r ddarpariaeth yn y meysydd sydd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, megis addysg gorfforol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r Cyfnod Sylfaen, yn amlwg. Mae adroddiadau pwnc yn cynnwys targedau ar gyfer gwelliant ond ar adegau nid yw'r monitro'n ffocysu'n ddigonol ar waith disgyblion i sicrhau dilyniant a pharhad ym mhob agwedd megis llefaredd ac ysgrifennu.

Caiff yr hyfforddiant ar gyfer athrawon a'r staff cynnal ei gysylltu'n eglur gyda'r blaenoriaethau ysgol a ddynodwyd ac mae cymuned ddysgu wedi ei sefydlu'n dda yn yr ysgol sydd yn galluogi staff i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae cysylltiadau gweithio proffesiynol yn bodoli gydag ysgolion y clwstwr ac mae athrawon yn cyfrannu at rwydweithiau dysgu lleol a'r awdurdod lleol mewn agweddau megis datblygu darllen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Caiff y ddarpariaeth ei wella'n arwyddocaol gan bartneriaethau cynhyrchiol. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd profiad cyn-ysgol ac yn gwneud pob ymdrech i gynnwys rhieni/gofalwyr cyn i'r disgyblion gychwyn yn yr ysgol trwy ystod o raglenni. Sefydlwyd amrywiaeth o weithgareddau pontio sydd yn ymdrin â'r cwricwlwm a lles y disgyblion, gan sicrhau y cânt eu paratoi'n dda ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Ceir perthnasau gweithio da gyda'r gwasanaethau cefnogi a'r clwstwr lleol o ysgolion. Mae cyfranogi mewn prosiectau ar y cyd, megis datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gorfforol, wedi ymestyn gwybodaeth broffesiynol y staff a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion.

Mae hon yn ysgol gymunedol gyda grwpiau lleol yn ddefnyddwyr rheolaidd o gyfleusterau'r ysgol. Mae ymwelwyr â'r ysgol ac ymweliadau i'r ardal leol ac ymhellach i ffwrdd yn ymestyn yr amrediad o brofiadau ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff athrawon a staff cynnal eu lleoli'n effeithiol ar draws yr ysgol a defnyddir arbenigedd pynciol athrawon yn dda i wella dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn

diwallu'r gofynion ar gyfer ailfodelu'r gweithlu, ac mae dyrannu priodol o amser cynllunio, paratoi ag asesu athrawon yn cefnogi mentrau i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r holl staff yn cydweithio wrth gynllunio ac yn derbyn yr hyfforddiant priodol. Mae staff cynnal ac atodol yn cyfrannu'n dda tuag at weithio effeithlon yr ysgol. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd ar y ddau safle mewn cyflwr da ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae adnoddau da yn cefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r gyllideb yn dda ac mae'n gweithio'n galed i ennill grantiau ychwanegol i gynnal ac ymestyn y ddarpariaeth. Caiff y blaenoriaethau a ddynodir eu hadnoddu'n briodol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am aran.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd yr holiaduron eu cwblhau gan ychydig dan draean o'r rhieni/gofalwyr gyda'r holl ohonynt yn gyffredinol yn mynegi bodlonrwydd gyda'r ysgol. Gwna bron yr holl rieni ymatebion cadarnhaol iawn am y ddarpariaeth a baratoir ar gyfer y disgyblion. Dywedant fod eu plant yn hoffi bod yno a theimlant fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Credant fod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod nhw, fel rhieni, yn derbyn gwybodaeth dda. Ychwanegant eu bod yn teimlo'n gyfforddus wrth droi at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Roeddent hefyd yn dweud fod y plant yn derbyn digon o gefnogaeth ychwanegol mewn perthynas â'u hanghenion dysgu a bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Creda bron yr holl rieni/ gofalwyr fod yr ysgol yn trin y plant yn deg a chyda pharch a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'w hysgol nesaf.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhawyd yr holiadur gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Dywedant i gyd eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau'r ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth ac arweiniad. Maent bron i gyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda. Maent yn cytuno fod yr ysgol yn dysgu iddynt sut i gadw'n iach ac i fyw dulliau byw mwy iachus. Maent bron i gyd yn credu fod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda a bod gwaith cartref yn eu helpu i wella safon eu gwaith. Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo fod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ar bob achlysur.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Christine Phillips | Arolygydd Tîm |
| Helen Adams | Arolygydd Lleyg |
| Richard Lloyd | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Rowlands | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A T Britannic
Llandarsi
Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |